# Cyfrannu at osod allan strwythurau sylfaenol gwaith maen

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â dehongli gwybodaeth, defnyddio arferion gwaith iach a diogel, dethol deunyddiau, cydrannau a chyfarpar a chynorthwyo i osod allan strwythurau sylfaenol adeiladau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau swyddogol a roddwyd i wneud eich gwaith a chadw arferion gwaith iach a diogel

P2 Dethol faint o adnoddau ac ansawdd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y dulliau gwaith

P3 Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o amgylch

P4 Cydymffurfio â'r wybodaeth gontract a roddwyd i wneud y gwaith yn effeithlon i'r fanyleb ofynnol

P5 Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a glustnodwyd, yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Maen Prawf Perfformiad 1**

*

***Arferion gwaith diogel**

*

***G1 Y mathau o* *wybodaeth**

G2 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael am **ddeddfwriaeth** berthnasol, cyfredol **a chanllawiau swyddogol** a sut i'w defnyddio

G3 Sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

G4 **gweithdrefnau diogelu'r** sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

G5 Y drefn ar gyfer gwneud adroddiad am ddamwain a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

G6 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

**Maen Prawf Perfformiad 2**

**Dethol adnoddau**

G7 Nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yn gysylltiedig gyda'r adnoddau

G8 Sut y dylid defnyddio'r **adnoddau a sut yr adroddir ar unrhyw broblemau yn gysylltiedig gyda'r adnoddau**

G9 Y **peryglon** yn gysylltiedig gyda'r **adnoddau** a'r **dulliau gwaith**

**Maen Prawf Perfformiad 3**

**Lleihau'r risg o ddifrod**

G10 Sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a diben diogelu

G11 Pam y dylid **cael gwared â gwastraff** yn ddiogel

**Maen Prawf Perfformiad 4**

**Gwybodaeth gontract a roddwyd**

G12 Sut y gwneir y **dulliau gwaith** a gwneud adroddiad am **broblemau**

G13 Sut i **gynnal-a-chadw** offer a chyfarpar

**Maen Prawf Perfformiad 5**

**Amser a glustnodwyd**

G14 **Beth yw'r** rhaglen **ar gyfer y gwaith i'w wneud a pham y dylid cadw at amserlenni**

## Cwmpas/Ystod

**Maen Prawf Perfformiad 1

**1 Osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â'r dilynol
1.1 dulliau gwaith
1.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
1.3 defnyddio a storio deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
1.4 risgiau penodol i iechyd

**Maen Prawf Perfformiad 2**

2 Dethol adnoddau yn gysylltiedig â'ch gwaith eich hun
2.1 deunyddiau, cydrannau a gosodion
2.2 offer a chyfarpar gosod allan

**Maen Prawf Perfformiad 3**

3 Diogelu'r gwaith a'r ardal o amgylch rhag difrod
4 Lleihau difrod a chadw gofod gwaith glân
5 Cael gwared â gwastraff yn unol â deddfwriaeth

**Maen Prawf Perfformiad 4**

6 Arddangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan, lefelu, lleoli a diogelu
7 Defnyddio a chynnal-a-chadw offer llaw a chyfarpar ategol
8 Cynorthwyo i osod allan strwythurau sylfaenol adeiladau i gyfarwyddiadau gwaith a roddwyd, ar gyfer o leiaf dau o'r dilynol:
8.1 pennu dimensiynau
8.2 adeiladu a lleoli proffiliau
8.3 lleoli leiniau anelu
8.4 lefelau trosglwyddo

**Maen Prawf Perfformiad 5**

9 Cwblhau eich gwaith eich hun o fewn yr amser a ganiateir

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Cael gwared â gwastraff**

1 Cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Argyfyngau**

2 Ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol â chaniatâd sefydliadol a sgiliau personol wrth ymwneud â

2.1 tanau, arllwysiadau, anafiadau

2.2 argyfyngau'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

**Peryglon**

3 Y peryglon a ddynodir gan asesiad risg, dull gwaith, gwybodaeth dechnegol gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

4 Dynodir gan egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a diben pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol

4.1 mesurau diogelu torfol

4.2 cyfarpar diogelu personol (PPE)

4.3 cyfarpar diogelu anadlol (RPE)

4.4 awyriad ecsôst lleol (LEV)

**Gwybodaeth**

5 Gwybodaeth gwneuthurwyr, llafar/ysgrifenedig a brasluniau

**Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol**

6 Mae hyn yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau a pheryglon iechyd posibl wrth weithio yn y gweithle, dan lefel y ddaear, ar uchder, gydag offer a chyfarpar, gyda deunyddiau a sylweddau, wrth symud/storio deunyddiau ac wrth godi a chario â llaw ac yn fecanyddol

**Cynnal-a-chadw**

7 Gofal y gweithiwr o offer llaw a chyfarpar ategol

**Dulliau gwaith**

8 Defnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion gwaith iach a diogel, gweithdrefnau a sgiliau yn ymwneud â'r dull/ardal waith a'r deunyddiau a ddefnyddir i:
8.1 gynorthwyo i osod allan strwythurau sylfaenol adeiladau
8.2 adeiladu a lleoli proffiliau
8.3 lleoli leiniau anelu
8.4 lefelau trosglwyddo
8.5 defnyddio offer llaw a chyfarpar gosod allan
9 Gwaith tîm a chyfathrebu
10 Anghenion galwedigaethau eraill yn gysylltiedig â gosod allan strwythurau sylfaenol adeiladau

**Problemau**

11 Problemau'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gwaith
11.1 eich awdurdod eich hun i unioni
11.2 gweithdrefnau adrodd sefydliadol

**Rhaglen**

12 Amserau a gytunwyd ar gyfer cychwyn a gorffen

**Diogelu gwaith**

13 Diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau cyffredinol y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd anffafriol

**Adnoddau**

14 Deunyddiau, cydrannau a chyfarpar yn ymwneud â mathau, swm, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol a/neu arbenigol y dilynol:
14.1 pren ar gyfer proffiliau a gosodion
14.2 cyfarpar llaw a gosod allan
15 Dulliau o gyfrif swm, hyd ac arwynebedd yn gysylltiedig gyda'r dull/gweithdrefn i gynorthwyo i osod allan strwythurau sylfaenol gwaith maen.

**Trefniadau diogelwch**

16 Safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

COSVR38W

Cyfrannu at osod allan strwythurau sylfaenol gwaith maen

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Construction Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ion 2012 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2017 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ConstructionSkills / SgiliauAdeiladu |
| **RCU gwreiddiol** | VR38 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Bricwyr a Seiri maen |
| **Cyfres/Set** | Galwedigaethau Trywel (Adeiladu) |
| **Geiriau Allweddol** | Gosod allan; Proffiliau; Leiniau anelu; Lefelau trosglwyddo |